Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi, Sgiliau ac
Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

8 Mawrth 2018

Annwyl Mr Slade,

**Cyfarfod Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 15 Ionawr 2018: Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU**

Diolch am eich llythyr ar 31 Ionawr a ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Chwefror.

Yn ystod yr ystyriaeth o'r adran ynglŷn â Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU, teimlai'r Aelodau fod yna athroniaeth wahanol o ran y dull at gaffael rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae gan y Pwyllgor nifer o gwestiynau am y berthynas rhwng Llywodraethu Cymru a Llywodraeth y DU a chytunwyd y byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar y mater hwn.

A allwch chi roi gwybod i chi:

- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yn defnyddio fframweithiau caffael Digidol, Data a Thechnoleg (DDDS) Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS);
- Rhowch resymau pam na fyddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r fframweithiau caffael hyn yn uniongyrchol ac yn hytrach yn creu fersiynau ar wahân; ac
- Yn Lloegr maent yn defnyddio'r mecanweithiau newydd, fel y nodwyd yn eich llythyr, sy'n darparu ar gyfer caffael cyflym a dull arbrofol ailadroddol. Mae'n ymddangos bod yn well gan Lywodraeth Cymru y contractau TG mawr ar yr hen ffurf sydd yn para am lawer o flynyddoedd ac yn cymryd cryn dipyn o amser i'w caffael. Yn yr achos hwn, a allwch chi egluro beth yw'r

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

amserau arweiniol ar gyfer fframweithiau caffael Llywodraeth Cymru o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr a pham nad yw'n ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio, ynghyd â faint sydd wedi'i wario ar y fframweithiau caffael yn Lloegr.

Edrychaf ymlaen at dderbyn y wybodaeth bellach hon ac rwy'n copïo hwn a'ch llythyr chi at Russell George AC, Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau oherwydd diddordeb y Pwyllgor hwnnw yn y meysydd hyn.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**